# Rhaglen Adfywio Strategol Dyffryn Hafren

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil crynodeb | Ymchwil gymdeithasol | Rhif y ddogfen: 93/2014

Rhaglen gwerth £5.4m a ariennir yn rhannol gan ERDF yw'r SVSRP o fuddsoddiadau isadeiledd ffisegol yn nhrefi Llanidloes, Y Drenewydd a'r Trallwng ac o'u cwmpas, yn sir Powys. Mae'n cynnwys tri chynllun ar wahân, pob un bellach wedi'u cwblhau:

- datblygu a gwasanaethu safle: ym Mharc Busnes Clawdd Offa (Y Trallwng) a Pharc Busnes Aber-miwl (Y Drenewydd);
- cynllun treftadaeth adeiledig Dyffryn Hafren: adnewyddiad ffisegol o eiddo penodol sydd wedi dirywio a defnyddio eiddo segur unwaith eto;
- cynllun gwella amgylchedd Dyffryn Hafren: buddsoddi yng nghanol y tair tref i wella'r amgylchedd adeiledig.

**Gwaith Arfarnu a Gynhaliwyd**

Roedd y gwaith arfarnu'n golygu diweddaru astudiaeth waelodlin flaenorol a gynhaliwyd yn 2010 er mwyn asesu sut mae canfyddiadau'r ardal leol wedi newid, gan gipio effaith y rhaglen ar y newidiadau hyn. Roedd y gwaith yn cynnwys:

- 800 o gyfweliadau ar y stryd gyda thrigolion lleol sy'n byw ymhen 10 munud o un dref o leiaf o'r tair;
- 390 cyfweliad dros y ffôn gyda busnesau a grwpiau gwirfoddol/cymunedol lleol ymhen 10 milltir o un dref o leiaf o'r tair, gyda nifer fach o gyfweliadau manwl wedi'u hychwanegu atynt.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Prif Ganfyddiadau: Trigolion**

Graddiodd mwyafrif helaeth y trigolion (84 y cant) eu tref fel lle da neu dda iawn i fyw ynddo (i fyny o 74 y cant yn 2010), ond gwnaeth llawer llai ei ystyried yn lle da iawn neu'n lle da i weithio ynddo (47 y cant, ond i fyny o 45 y cant) neu i siopa (40 y cant, yn debyg i 2010). Mae cyfran uchel iawn (78 y cant) yn ystyried eu tref yn ddeniadol (74 y cant yn 2010) ac yn lle arbennig (70 y cant, yn sylweddol uwch na'r ffigur o 52 y cant yn 2010).

Fel yn 2010, y disgrifiadau mwyaf cyffredin o'r economi leol oedd "hen ffasiwn" (67 y cant), "araf" (73 y cant), "cul" (54 y cant); dim ond 13 y cant ddisgrifiodd eu tref yn "fodern" a 12 y cant yn "fywiog". Fel 2010, cred ychydig dan hanner y trigolion fod gan yr economi leol gymysgedd da o fusnesau, ond cred llawer yn llai (23 y cant, o gymharu ag 19 y cant yn 2010) fod yno ystod dda o swyddi o ansawdd a chred llai fyth (18 y cant, ond i fyny o 12 y cant yn 2010) fod yr ardal leol yn darparu rhagolygon gyrfa tymor hir da.

Mae materion cymdeithasol yn llawer llai o ofid nag oedden nhw yn 2010; cafwyd cwymp mawr yn niferoedd y trigolion oedd yn mynegi pryder am "bobl yn eu harddegau'n loetran y strydoedd", "sbwriel ar hyd y lle"; ystyriwyd mai pobl yn "gwerthu neu'n defnyddio cyffuriau" oedd y mater cymdeithasol mwyaf dybryd, ond roedd hyn yn dipyn llai o ofid nag ydoedd yn 2010.

Ar y cyfan, trigolion Llanidloes yw'r rhai mwyaf cadarnhaol o ran eu barn ar eu tref, yn enwedig atynioldeb, hynodrwydd a chymhendod/glendid eu tref (fel yr oedd yr achos yn 2010), ond maen nhw'n llai cadarnhaol am yr economi leol; trigolion y Drenewydd sydd â'r canfyddiadau lleiaf cadarnhaol (yn 2010, roedd y darlun yn fwy cymysg rhwng y Drenewydd a'r Trallwng).

**Prif Ganfyddiadau: Busnes a mudiadau gwirfoddol/cymunedol**

Mae busnesau'n gadarnhaol gan mwyaf am yr amodau masnachu sydd ohoni, gyda 70 y cant yn disgrifio amgylchedd masnachu cadarnhaol (i fyny o 49 y cant yn 2010, o bosibl yn adlewyrchu gwelliant cyffredinol yn yr economi). Graddiodd ychydig dan hanner y busnesau a 64 y cant o sefydliadau sector

gwirfoddol/cymunedol yr ardal leol fel lle da neu dda iawn i redeg busnes neu sefydliad ynddi; mae hyn yn awgrymu bod gan rai busnesau safbwyntiau llai cadarnhaol o'u hardal leol nag y mae ganddynt am eu rhagolygon busnes eu hunain.

Roedd gan fusnesau farn arbennig o anffafriol am yr ardal leol fel lle i siopa ynddi (fel ag yr oedd yr achos yn 2010), ond roedd sefydliadau sector gwirfoddol/cymunedol yn llawer mwy cadarnhaol. Fodd bynnag, ymddengys bod mwyafrif helaeth y busnesau a sefydliadau sector gwirfoddol/cymunedol yn hyderus am y dyfodol; roedd 32 y cant yn "hyderus iawn", codiad o 10 pwynt canran ar y ffigur a adroddwyd yn 2010.

Fel gyda chanfyddiadau am amgylchedd busnes yr ardal leol, roedd sefydliadau sector gwirfoddol/cymunedol fwy neu lai'n fwy cadarnhaol am ei hamgylchedd ffisegol a'i hymddangosiad, yn unol â'r ymatebion i arolwg 2010.

Mynegodd y sylfaen Fusnes bryderon am y farchnad lafur leol; gwnaeth ddim ond 23 y cant o fusnesau gytuno neu cytuno'n gryf fod ystod dda o swyddi o safon yn yr ardal leol (ond mae hyn yn adlewyrchu gwelliant mewn teimladau ymhlith busnesau o 2010); gwnaeth hyd yn oed llai o gwmnïau gytuno neu cytuno'n gryf fod yr economi leol yn darparu rhagolygon gyrfa tymor hir da.

Nodwyd bod mynd i'r afael â thagfeydd yn ofyniad allweddol er mwyn gwella Dyffryn Hafren fel lle i redeg busnes ac i weithio ynddo, yn enwedig gan gwmnïau a sefydliadau sector gwirfoddol/cymunedol yn y Drenewydd, lle tynnwyd sylw at yr angen am ffordd osgoi newydd.

**Effaith SVSRP ar Ganfyddiadau**

Roedd ymwybyddiaeth o fuddsoddiadau SVSRP ymhlith trigolion ar ei huchaf mewn perthynas â gwelliannau i ganol trefi. Roedd ymwybyddiaeth y trigolion o Glawdd Offa (23 y cant) yn uwch nag o Aber-miwl (20 y cant); ac roedd rhyw 16 y cant o drigolion yn ymwybodol o welliannau i eiddo wedi dirywio. Yr effeithiau mwyaf a welwyd oedd bod y trefi'n ddeniadol, bod strydoedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac fel lleoedd i fyw ynddynt ac i ymweld â nhw. Credai rhyw 40 y cant o'r trigolion hyn fod rhaid i'r cynlluniau wella'r arlwy adwerthu lleol.

Roedd dros ddwywaith yn fwy o fusnesau (36 y cant) yn ymwybodol o Barc Busnes Clawdd Offa nag yr oeddent o Aber-miwl (17 y cant); roedd rhyw 18 y cant o gwmnïau'n ymwybodol o adnewyddiadau i eiddo masnachol wedi dirywio, gyda 25 y cant o gwmnïau'n ymwybodol o welliannau i ganol trefi. Gwelwyd mai'r effeithiau mwyaf oedd bod y trefi'n ddeniadol, ac yn lleoedd arbennig yn ogystal â meddu ar adeiladau a strydoedd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Ymhlith sefydliadau sector gwirfoddol/cymunedol, roedd ymwybyddiaeth ar ei huchaf o gynllun Parc Busnes Clawdd Offa (18 y cant) ac roedd ymwybyddiaeth o'r buddsoddiadau eraill yn isel iawn (dan 10 y cant ar gyfer pob haen). Ymhlith sefydliadau VCS, gwelwyd mai'r effeithiau mwyaf oedd cynnal a chadw'r strydoedd a glendid/cymhendod y trefi.

**Argymhellion**

1. Sicrhau bod buddsoddiadau isadeiledd cludiant allweddol (e.e Ffordd Osgoi'r Drenewydd) yn cael eu gwneud i leddfu tagfeydd ac agor safleoedd newydd;
2. Cefnogi busnesau, sefydliadau a defnyddwyr lleol i fwyhau defnydd ac effaith isadeiledd band eang Cyflymu Cymru newydd;
3. Sicrhau bod ardal Dyffryn Hafren yn cael ei chwmpasu mewn ardaloedd adfywio gofodol newydd (e.e. Parth Twf Lleol Powys);
4. Darparu cyllid llenwi bwlch o dir cyflogaeth a safleoedd busnesau bach a chanolig eu maint lle mae achos am arian cyhoeddus;
5. Datblygu rhaglen fenter leol sy'n cysylltu adfywio ffisegol gyda chefnogaeth ar gyfer busnesau, unigolion ac entrepreneuriaid lleol.

Awdur: Innovas Consulting

ISBN: 978-1-4734-2441-8
4 Tachwedd 2014